# Y SENEDD

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 11:00 ar 18 Hydref 2023, yn y Tŷ Trafod, y Ganolfan Ddelweddu.**

| | |
|---|---|
| Aelodau â phleidlais: | Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol); yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu a Phrofiad Myfyrwyr); yr Athro Angela Hatton, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi); Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant Cymru a Chysylltiadau Allanol; Dr Stephen Atherton; yr Athro Andrew Evans; Mr Tom Bates; Dr Hanna Binks; Dr Otar Akanyeti; yr Athro Hazel Davey; Dr Sarah Davies; Dr Patrick Finney, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); Mr Jonathan Fry, Cadeirydd Cangen Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Dr Aloysius Igboekwu; Dr Alex Mangold; Ms Anna Simpkins, Swyddog Materion Academaidd, Undeb y Myfyrwyr; yr Athro Louise Marshall; Ms Jen Phipps; Dr Alexander Pitchford; Dr Alistair Shepherd; a'r Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion. |
| Aelodau heb bleidlais: | Yr Athro Iain Barber; yr Athro Simon Cox; Dr Thomas Jansen; Dr Kim Knowles; Dr Steve Thompson; Dr Lucy Trotter; Dr Anoush Simon; a'r Athro Helen Roberts, Cyfarwyddwr Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil. |
| Yn gweinyddu: | Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mr Trevor Pearce, Cofrestrydd Academaidd Dros Dro; Dr Gethin Rhys, Dirprwy Gofrestrydd. |

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Dr Ffion Jones; Dr Julie Mathias; Dr Alex Mangold; yr Athro Phillipp Schofield; yr Athro Iain Donnison; yr Athro Nigel Holt; yr Athro Mererid Hopwood; yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Gwyddorau Ddaear a Bywyd); yr Athro Andrew Thomas; Jackie Sayce

## 1. MATERION A GODWYD GAN YR IS-GANGHELLOR

1. Croeso

   Croesawyd y canlynol i'w cyfarfod cyntaf o'r Senedd: yr Athro Angela Hatton; Dr Stephen Atherton; Dr Hanna Binks; Dr Kim Knowles; Mr Trevor Pearce; Miss Anna Simpkins; Miss Elain Gwynedd.

2. Cydymdeimlad

   Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marwolaeth Mr Dave Kelly, gynt o'r Athrofa Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear.

## 2. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

**3. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2023 (SEN2223-003).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

**4. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN2324-004).

NODWYD

Y diweddariadau a roddwyd yn y cofnodydd.

1. Rheoliadau Graddau Cychwynnol Modiwlar: Cafodd y rheoliad gwreiddiol i fyfyrwyr cyfredol MEng ac MComp eu cyhoeddi, a daethpwyd â'r gweithredu i ben.

**5. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Dr Gethin Rhys (SEN2324-005).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar achos ers cyfarfod diwethaf y Senedd lle cafodd mater ei gymeradwyo gan yr Is-Ganghellor ar ran y Senedd.

2. Rhoddwyd cymeradwyaeth weithredol gan Gadeirydd y Senedd ym mis Gorffennaf 2023 i reoliadau newydd yn ymwneud â Thystysgrif AU Addysg Gofal Iechyd cyn sesiwn 2023/24.

**6. GOHEBIAETH**

NODWYD

1. Penodiad yr Athro Jon Timmis yn Is-Ganghellor o 1 Ionawr 2024 ymlaen.

2. Gohebiaeth oddi wrth yr Adran Ffiseg ynglŷn â marchnata cyrsiau.

PENDERFYNWYD

3. Cyfeirio'r ohebiaeth ynglŷn â marchnata cyrsiau at Gyfarwyddwr Marchnata a Denu Myfyrwyr i'w ystyried ymhellach ac i adrodd yn ôl i'r Senedd.

**7. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

DERBYNIWYD

Adroddiad yr Is-Ganghellor (SEN2324-006)

NODWYD

1. Y sefyllfa ariannol bresennol a'r camau sy'n cael eu cymryd i dorri ar wariant wrth ganolbwyntio ymdrechion ar feysydd o dwf busnes.

2. Cynnydd o 25% yng nghyfanswm yr incwm ymchwil o'i gymharu â'r llynedd, gan gynnwys 40% o gynnydd yn yr incwm gan Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI).

3. Parhad y twf yn nifer y myfyrwyr o'i gymharu â chefndir y gostyngiad bach ym marchnad gartref y DU, a'r angen i barhau â'r ymdrechion i gynyddu ein cyfran o'r farchnad ryngwladol mewn amgylchedd ffyrnig.

4. Cyhoeddwyd canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr ym mis Awst, ac mae Prifysgol Aberystwyth yn dal ar y brig o blith prifysgolion Cymru am fodlonrwydd myfyrwyr, safle rydym wedi'i gadw ers wyth mlynedd. Hefyd, cawsom ein henwi yn Brifysgol y Flwyddyn yng Nghymru am 2024 yng Nghanllaw Prifysgolion Da y Times / Sunday Times, ac rydym wedi cadw'n lle yn y 39ain safle o blith 134 o brifysgolion y DU.

5. Roedd gwaith yn mynd rhagddo ynglŷn â mater ffioedd myfyrwyr heb eu talu ac adolygu sancsiynau academaidd.

**PENDERFYNWYD**

6. Bydd y Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ffioedd myfyrwyr yng nghyfarfod y Senedd ym mis Tachwedd.

**8. Y PWYLLGOR YMCHWIL AC ARLOESI**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Tîm Effaith Ymchwil (SEN2324-007)

NODWYD

1. Y datblygiadau mewn cyfleoedd ariannu a'r cyfleoedd newydd ar gyfer cydweithrediadau ymchwil, gan gynnwys prosiectau rhaglen Horizon.

2. Y trafodaethau ynglŷn â chefnogi menywod mewn ymchwil.

**9. Y BWRDD ACADEMAIDD**

1. Adroddiad o'r Bwrdd Academaidd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick (SEN2324-008).

NODWYD

1. Roedd y Bwrdd Academaidd wedi ystyried yr ymateb sefydliadol i gyflwyniad blynyddol Undeb y Myfyrwyr, gan gynnwys y gwaith cyson i amrywio'r cwricwlwm a goblygiadau Deallusrwydd Artiffisial mewn gwaith i'w asesu.

2. Yn dilyn ymweliad arolygu gan Estyn, roedd Partneriaeth Addysg Gychwynnol Athrawon, Aberystwyth wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o drefniadau’r lleoliadau. Roedd y Bwrdd Academaidd hefyd yn adolygu goruchwyliaeth sefydliadol y ddarpariaeth.

3. Y meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwelliannau sefydliadol yn ystod sesiwn 2023/24 ac wrth baratoi am Arolwg Gwella Ansawdd: dysgu gweithredol a dadansoddi data ynglŷn â dysgwyr; cefnogaeth i fyfyrwyr rhyngwladol; atgyfnerthu portffolio cynaliadwy; dysgu cyfunol; a Deallusrwydd Artiffisial mewn gwaith a asesir.

4. Y diweddariadau i'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd ar gyfer sesiwn 2023/24.

2. <u>Micro-gymwysterau</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Judith Shepherd (SEN2324-009).

NODWYD

1. Roedd trafodaethau grŵp gorchwyl a gorffen wedi sefydlu bod angen mwy o gefnogaeth i'r Brifysgol gychwyn ar ddatblygu micro-gymwysterau a'r cynigion cysylltiedig am gyllid a chydweithredu pellach â diwydiant. Wrth drafod, nododd yr aelodau bwysigrwydd allweddol y maes hwn ar gyfer cynhyrchu incwm yng nghyd-destun niferoedd isel y bobl ifanc 18 oed mewn Addysg Uwch yng Nghymru.

**PENDERFYNWYD**

2. Y Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu a Phrofiad Myfyrwyr i roi gwybodaeth i’r Is-Ganghellor newydd am waith y grŵp gorchwyl a gorffen Micro-gymwysterau.

**10. BWRDD Y DDARPARIAETH GYDWEITHREDIADOL**

1. <u>Adroddiad o Fwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Judith Shepherd (SEN2324-010).

NODWYD

Y cynlluniau Partneriaeth Academaidd sy’n cael eu trafod ar hyn o bryd, a'r trefniadau sydd ar waith ym Mhrifysgol Hohai, Tsieina i ddysgu’r myfyrwyr sydd ar ôl ar gynlluniau.

2. <u>Adroddiad Blynyddol y Ddarpariaeth Gydweithrediadol</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad Blynyddol gan y Dirprwy Gofrestrydd Judith Shepherd (SEN2324-011).

NODWYD

1. Cynnwys yr Adroddiad Blynyddol a'r gwaith sydd ar y gweill i ddatblygu Strategaeth Partneriaethau Academaidd.

**PENDERFYNWYD**

2. Diolch yn ffurfiol i'r Dirprwy Gofrestrydd – Partneriaethau Academaidd am baratoi'r Adroddiad Blynyddol.

**11. EITEMAU ER GWYBODAETH**

DERBYNIWYD

Cafodd yr aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Adroddiad o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (SEN2324-012);

2. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (SEN2324-013).

NODWYD

3. Bod trefn ddiwygiedig wedi'i chyflwyno ar gyfer risg.

4. Cyfres o sesiynau rhwydweithio ymchwil i gefnogi aelodau cangen y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wrth baratoi ceisiadau grant ac i rannu syniadau am brosiectau posibl.

5. Cynnwys yr adroddiadau eraill a gyflwynwyd er gwybodaeth.

**12. COFNODION PWYLLGORAU**

DERBYNIWYD

Adroddiad yn cynnwys y canlynol (SEN2324-019):

1. Y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi (25 Medi 2023);

2. Y Bwrdd Academaidd (12 Gorffennaf 2023 ac 13 Medi 2023);

3. Y Ddarpariaeth Gydweithrediadol (05 Gorffennaf 2023 a 04 Hydref 2023);

4. Y Cyngor (07 Gorffennaf 2023)

NODWYD

5. Yr adroddiadau a ddaeth o'r pwyllgorau.

**13. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A MATERION YN Y DYFODOL**

NODWYD

Diwrnod Encil y Senedd a'r cyfarfod ffurfiol ar 15 Tachwedd 2023.

HGRh 1 Tachwedd 2023